# Gerddi Dunraven:

## y saffari planhigion rhyfedd a rhyfeddol!

ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG
GLAMORGAN HERITAGE COAST

Dechreuodd Gerddi Dunraven fel padog muriog yn ystod Oes y Tuduriaid, 400-500 o flynyddoedd yn ôl. Byddai'r muriau wedi amddiffyn y planhigion rhag lladron ac anifeiliaid gwyllt, yn ogystal â'u cysgodi rhag y gwyntoedd cryf sy'n chwythu ar hyd yr arfordir. Yn ystod Oes Fictoria, roedd y Gerddi'n darparu bwyd a rhywle i ymlacio i'r teuluoedd oedd yn byw yn y Castell gerllaw.

**Y tu mewn i'r muriau gallai planhigion o bedwar ban byd dyfu yma. Faint gallwch gael hyd iddyn nhw?**

### Coeden Fêl



Enw arall ar y goeden fêl yw 'llwyn y pili pala', oherwydd bod y blodau lliwgar yn ddeniadol iawn i ieir bach yr haf. Mae'r blodau'n tyfu mewn clystyrau ac weithiau mae oglau mêl arnyn nhw!

### Rhosyn Filipes Kiftsgate



Mae Rosa filipes yn perthyn i'r rhosyn ac yn dod o Tsieina. Mae blodau bach gwyn arno sy'n tyfu mewn clystyrau o hyd at 100 o flodau. Gall dyfu'n gyflym iawn, weithiau hyd at 10 metr o daldra!

### Iwca




Ceir llawer o wahanol rywogaethau o blanhigion Iwca. Mae ffrwythau, hadau a blodau bwytadwy ar rai. Fel arfer, maen nhw'n cael eu tyfu fel planhigion addurnol ar gyfer gerddi a chartrefi.

### Ffigysen



Mae ffigs – y gallwch eu prynu mewn llawer o siopau – yn tyfu ar y planhigyn yma. Fel arfer, mae'n tyfu yn y Dwyrain Canol neu mewn hinsoddau Canoldirol lle mae'n gynnes heb fawr o law.

### Meryswydden



Coeden fach yw'r feryswydden gyda ffrwythau bwytadwy. Dim ond ar ôl i'r ffrwythau feddalu ac i'r croen wystno a throi'n frown tywyll y gallwch eu bwyta. Yna, gallwch eu bwyta mewn llawer o seigiau, fel tartenni, jamiau neu gyda chaws.

**Sganiwch yma ar gyfer mwy o hwyl i'r teulu...**

**www.valeofglamorgan.gov.uk/familyfun**


creative RURAL COMMUNITIES

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

LEADER

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cwis Dunraven

Cadwch lygad am y postyn gwrando yn yr Ardd. Trowch yr handlen i glywed straeon diddorol. Defnyddiwch y postyn gwrando i gwblhau Cwis Dunraven!

**1** Ym mha flwyddyn cafodd y gerddi eu trefnu yn y cynllun sydd yma heddiw?

**2** Enwch ffrwyth oedd yn cael ei dyfu yma gan y Fictoriaid.

**3** Helwyr planhigion dewr oedd yn gyfrifol am ddod â llawer o'r planhigion egsotig sydd yn yr ardd yma – bydden nhw'n teithio'r byd gan ddod â gwahanol blanhigion yn ôl o leoedd a oedd yn aml yn beryglus iawn. Sut bu bron i'r helwyr planhigion Robert Fortune ac Ernest Wilson golli eu bywydau?

**4** Pam mae'r gwynt fan hyn yn gwneud bywyd mor anodd i goed?

**5** Enwch aderyn sy'n mudo ar hyd arfordir Dunraven.

**Atebion**

**1** 1820 **2** Nectarinau, eirin gwlanog neu rawnwin. **3** Fortune – morladron o Tsieina, Wilson – cwymp eira.
**4** Mae'n cynnwys halen.**5** Gwylan y penwaig, llinos, peneuryn, gwennol neu delor yr helyg.